Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: LIC46289

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fersiwn Ddrafft o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Carchardai yng Nghymru

31 Ionawr 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-372-0

Trosolwg

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ar Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yng Nghymru. Bydd datblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau iechyd meddwl newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai.

Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Substance.Misuse@gov.wales

Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Fersiwn Ddrafft o Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer Carchardai yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Cynnwys

Cynnwys 3
Cyflwyniad 4
Ymgynghoriad 5
Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad 5
Nifer yr ymatebion fesul sefydliad ..... **Error! Bookmark not defined.**
Crynodeb o'r ymatebion 6
Prif negeseuon 7
Ymateb Llywodraeth Cymru 30

Cyflwyniad

1. Ar 22 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn ddrafft o Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carchardai yng Nghymru at ddiben ymgynghori.

2. Nod y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd a'r safonau newydd ar gyfer iechyd meddwl yw helpu i sicrhau cyfwerthedd i bobl yn y carchar, o safbwynt mynediad at ofal, cymorth a thriniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu'r Fframwaith drafft, a gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion i ddatblygu'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai.

3. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai, sy'n amlinellu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer iechyd a lles pobl sydd yn y carchar yng Nghymru. Nod y Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) yng Nghymru, byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yw ysgogi gwelliannau o ran iechyd a lles pobl yn y carchar yng Nghymru. Mae'r Cytundeb Partneriaeth yn cydnabod rhwymedigaethau statudol unigryw partneriaid allweddol a'i nod yw datblygu'r amcan cyffredin o sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a lles a lle mae modd cael gwasanaethau iechyd o'r un safon â gwasanaethau yn y gymuned.

4. Mae'r Fframwaith yn datblygu llwybr camddefnyddio sylweddau sy'n mynd i'r afael â darpariaeth glinigol a seicogymdeithasol yng ngharchardai Cymru. Mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau wedi'i gynllunio i lywio a chynorthwyo cynllunwyr a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol i gynllunio a darparu gwasanaethau atal a thrin cynaliadwy a theg o ansawdd uchel ar gyfer pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn y carchar neu sy'n wynebu risg o broblemau o'r fath.

5. Bydd y safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant meddyliol ac anableddau dysgu cyson sydd wedi'u teilwra'n unol â'r angen ym mhob carchar. Bydd y safonau cyffredinol yn gweithredu fel fframwaith i asesu ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai trwy broses hunanadolygu ac adolygu gan gymheiriaid. Mae'r safonau'n cynnwys adran ar amgylcheddau sy'n galluogi, sy'n seiliedig ar ddeg o werthoedd. Credir bod pob un ohonynt yn

ffactorau mewn amgylcheddau seicogymdeithasol cadarnhaol.

6. Wrth ddatblygu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi ymgysylltu â HMPPS, byrddau iechyd, y trydydd sector, timau iechyd mewn carchardai a rhanddeiliaid eraill (gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a darparwyr yn y carchardai a'r gymuned).

Ymgynghoriad

7. Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant fersiwn ddrafft y Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer carchardai yng Nghymru ar gyfer cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus a barodd am 12 wythnos, ac a ddaeth i ben ar 14 Hydref 2022. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd casglu barn ar y canlynol:

   - Y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau arfaethedig.

   - Y safonau cyffredinol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai a'u pwyslais ar y meysydd canlynol: Derbyn ac asesu, yn cynnwys trefniadau i asesu pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd o'r blaen; triniaeth ac adfer; rhyddhau a throsglwyddo; diogelwch; profiad cleifion; partneriaethau cydweithredol; rheoli meddyginiaeth; amgylchedd ehangach y carchar; y gweithlu; arweinyddiaeth a llywodraethu; gofal iechyd meddwl 24 awr y dydd; a'r Gymraeg.

   - Nifer o Asesiadau Effaith drafft - yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

8. Roedd dogfen ymgynghori gysylltiedig, ynghyd â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau iechyd meddwl drafft, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

9. Ochr yn ochr â'r cyfle i ymateb ar-lein neu drwy e-bost, yn ystod y cyfnod ymgynghori, bu Llywodraeth Cymru hefyd yn ymgysylltu â'r arweinwyr iechyd mewn carchardai, a'r Grŵp Goruchwylio Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn Carchardai.

Pwy ymatebodd i'r ymgynghoriad

10. Derbyniodd Llywodraeth Cymru 10 ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, a hoffai ddiolch i'r rheiny a ymatebodd.

11. Roedd y rhai a ymatebodd yn cynrychioli cyrff cyhoeddus a chyrff y trydydd sector, sectorau iechyd a gofal, a chyrff proffesiynol. Mae Ffigur 1 yn rhoi crynodeb o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Ffigur 1: Nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad fesul sefydliad



Crynodeb o'r ymatebion

12. Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn cynnwys cwestiynau penodol ar y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft, y safonau iechyd meddwl drafft, ac asesiadau effaith ategol. Rhoddir crynodeb o'r materion a'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid isod. Nid oedd pob ymateb yn ateb pob cwestiwn.

Prif negeseuon

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â strwythur a chynnwys y llwybr triniaeth glinigol a nodir ym Mhennod 2 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau – a'i ffocws ar asesu, gofal a thriniaeth ddilynol, a chymorth i bobl ar ôl gadael carchar – ar gyfer alcohol a chyffuriau?

13. Mae Siart 1 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 1.

Siart 1:



14. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

- **Cynnwys y llwybr clinigol yn cael ei ystyried yn gynhwysfawr – ond yr her allweddol fydd gwneud i hyn weithio yn ymarferol.**

  Roedd hon yn thema gyffredin ar draws y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mewn perthynas â gweithredu'r Fframwaith a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Fe'i codwyd yn benodol mewn perthynas â chefnogi'r rhai sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n digwydd ar yr un pryd. Nodwyd, er mai "dull cydgysylltiedig a chydlynus yw'r ffordd ymlaen heb os i'r rhai sydd â materion yn cyd-ddigwydd, mae'n ddull nad yw'n aml yn gweithio yn y gymuned oherwydd materion capasiti, diffyg arbenigwyr a diffyg cydgysylltu" (Sefydliad Trydydd Sector). Ar ben hynny, mae'n debygol y bydd "cymhlethdod ychwanegol" a heriau o ran cydlynu cymorth i rywun sydd yn y carchar neu sydd i fod i gael ei ryddhau (Sefydliad Trydydd Sector) - ac roedd cefnogaeth benodol i'r "gwaith o'r ddalfa i'r gymuned" gael ei gyfeirio drwy system APB [Bwrdd Cynllunio Ardal], a bod angen arwain y "cyfeiriad hwn o ddull partneriaeth, yn hytrach nag arweiniad gan sefydliad" (APB).

- **Roedd cefnogaeth eang i'r ffocws ar anghenion camddefnyddio sylweddau ac anghenion iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd ymhlith pobl yn y carchar. Fodd bynnag, roedd ymatebion yn cydnabod bod heriau'n parhau o ran mynediad at gymorth iechyd meddwl lle mae gan yr unigolyn anghenion camddefnyddio sylweddau ac anghenion iechyd meddwl.**

  Fel y dywedodd un ymateb: "Mae'n dda clywed eu bod yn ystyried cyffuriau ac alcohol ond yn bwysicach byth camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd gan mai dyma ble mae'r problemau. Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn gwrthod asesu unigolion sydd â phroblem iechyd meddwl gan eu bod yn dadlau mai'r defnydd o sylweddau sy'n achosi'r problemau iechyd meddwl" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Bydd adnoddau yn effeithio ar weithredu.**

  Unwaith eto, roedd hon yn thema gyffredin mewn perthynas â rhoi'r Fframwaith a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar waith.

  Er bod cefnogaeth i'r egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith**,** nododd nifer o ymatebion nad oedd digon o adnoddau ar gyfer y system bresennol. Gwnaed galwadau am "fethodoleg gynhwysfawr o sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol" (Sefydliad Trydydd Sector) – gyda chwestiynau'n cael eu gofyn ynghylch a fydd adnoddau ychwanegol (a pha rai) yn cael eu nodi i gefnogi gweithredu; pa systemau data fydd yn cael eu gweithredu i gynorthwyo gyda rhannu gwybodaeth (a mynd i'r afael â phobl yn gweithio ar eu trywydd eu hunain yn unig) a hefyd sut y bydd y gwaith o weithredu'r Fframwaith a'r safonau iechyd meddwl newydd yn cael ei gydlynu â'r sectorau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a thai "pan mae trafferthion eisoes o ran dull cydgysylltiedig yn y gymuned" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Mae hyfforddiant yn hollbwysig.**

  Yn yr un modd, roedd hon yn thema a ddaeth i'r amlwg mewn ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r Fframwaith a'r safonau iechyd meddwl.

  Roedd yr ymatebion yn galw am hyfforddiant â ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn ogystal ag addysg a hyfforddiant i'r person yn y carchar, gan ganolbwyntio ar leihau niwed.

- **Pontio o'r carchar i'r gymuned: Bydd cynlluniau rhyddhau / cynlluniau gofal yn hanfodol i weithredu'r Fframwaith yn llwyddiannus.**

  Er y cydnabuwyd bod gwelliannau wedi'u gwneud mewn perthynas â chynlluniau rhyddhau, mae mwy i'w wneud. Fel dywedodd un ymateb: "Er ein bod yn nodi bod cydlynu â thimau camddefnyddio sylweddau ar draws Cymru wedi gwella'n fawr i garcharorion a'r rhai sydd ar fin cael eu rhyddhau, rydym yn cydnabod bod llawer o anawsterau o fewn y sector iechyd meddwl ar draws Cymru, a heb

driniaeth a chefnogaeth effeithiol i'r rhai sydd â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd, bydd y fframwaith yn methu" (Sefydliad Trydydd Sector).

Roedd mynediad cyflym i unedau dadwenwyno ac adsefydlu ar ôl rhyddhau hefyd yn cael ei ystyried yn hollbwysig - gydag un ymateb yn tynnu sylw at y ffaith eu bod "yn eithaf aml yn gweld unigolion yn cael eu cyfeirio o'r carchar i unedau dadwenwyno yn cael eu rhyddhau heb i hyn ddigwydd oherwydd diffyg cydlynu, bydd unigolion wedyn yn cael eu rhyddhau i'r gymuned ac yn parhau gyda natur anhrefnus camddefnyddio sylweddau, yn aml gan barhau â gweithgarwch troseddol ac, yn bwysicach, gan roi eu bywydau eu hunain mewn perygl oherwydd gorddos" (Sefydliad Trydydd Sector).

Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch sut i ddarparu "cydlynu gwell" o ran cael mynediad i wasanaethau dadwenwyno/adsefydlu cyn rhyddhau.

Roedd ymateb arall yn galw am ystyried meddyginiaethau a ddarperir i'r person sy'n cael ei ryddhau o'r carchar - a sut y dylai hyn fod "yn fwy na 7 diwrnod fel mater o drefn" - o gofio nad yw saith diwrnod "yn amser hir i drefnu cyflenwadau pellach o feddyginiaethau" (Corff Proffesiynol). Yn ychwanegol: “Mae angen cofnodi gwell i werthuso'r llwyddiant a'r ymgysylltiad ar ôl rhyddhau o'r carchar" (Corff Proffesiynol).

Roedd yna gydnabyddiaeth hefyd bod cynlluniau rhyddhau yn hanfodol i gefnogi menywod sy'n dychwelyd i Gymru, yn dilyn dedfryd o garchar yn Lloegr. Roedd hon yn thema allweddol arall a godwyd yn yr ymgynghoriad, yn enwedig o ran sut mae'r Fframwaith (a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl) yn trosi i'r rhai sy'n dod yn ôl i Gymru ar ôl cwblhau dedfrydau o garchar yn Lloegr.

- **Mae heriau parhaus o ran rhannu data**.

  Yn benodol, nodwyd y byddai cynllunio gofal a rhannu gwybodaeth "ar draws systemau gwahanol, lleoliadau gwahanol a deiliaid gwybodaeth sefydliadol gwahanol yn wych ond mae'n ddigon posibl y bydd yn anymarferol, a bydd cyfyngiadau rhannu gwybodaeth ar gyfer iechyd" (Bwrdd Iechyd).

- **Mae asesiad cychwynnol a thriniaeth a'r angen am "ddull person cyfan" ac "ymgynghoriad cymryd hanes cynhwysfawr" yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith.**

  Dylai hyn "gynnwys unrhyw broblem defnyddio cyffuriau neu alcohol, hanes y gorffennol o ddefnyddio cyffuriau / ymateb, llwyddiant neu fethiant triniaeth / ymgysylltiad â thriniaeth / rhesymau dros roi'r gorau iddi (os yw'n berthnasol), hanes cymdeithasol, a hanes teuluol i asesu a rhagweld effaith ar lwyddiant triniaeth" (Corff Proffesiynol).

  Roedd yna gydnabyddiaeth hefyd, fodd bynnag, efallai na fydd modd cael mynediad at driniaeth ar y noson gyntaf yn y carchar: “Mae'n ymarferol darparu triniaeth symptomatig ar y noson gyntaf ond byddai OST [Therapi Amnewid

Opioid] yn golygu cost ychwanegol sylweddol gan nad oes presgripsiynwyr ar gael y tu allan i oriau" (Bwrdd Iechyd).

Codwyd materion hefyd ynglŷn â'r hyn y gall gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyfredol ei gynnig ar hyn o bryd, o ran triniaeth: "Nid yw llawer o wasanaethau cyffuriau ac alcohol yn cynnig strwythur bensodiasepin a z-gyffuriau, a thriniaeth SCRA [Tynhawyr Derbynyddion Canabinoid Synthetig], dadwenwyno neu ofal seicogymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r cyffuriau hyn" (Corff Proffesiynol).

Roedd sylwadau penodol eraill mewn perthynas â'r Fframwaith a thriniaeth arfaethedig yn cynnwys:

“Ni fyddai'n bosibl ar hyn o bryd i rannu dosau OST fel yr awgrymir, er y byddai hyn yn opsiwn buddiol ar gyfer sefydlu methadon ac i rai eraill sy'n gwneud yn well gyda'r dull hwn, neu sydd ar gyffuriau sy'n ysgogi ensymau etc. Nid yw Lofexidine ar gael bellach ac nid yw wedi bod ers sawl blwyddyn.” (Bwrdd Iechyd)

“Cwestiynu'r dystiolaeth dros ofyniad am lefelau plasma o fethadon ym mhob un. Nid yw'n bosibl derbyn y rhai sy'n defnyddio symbylyddion yn drwm i'r uned gofal iechyd gan nad oes un yng [Ngharchar XXX] o gwbl. Rwy'n pryderu hefyd bod llawer iawn o PCIPS sy'n cael eu derbyn yn defnyddio cocên a/neu amffetaminau. Nid oes gennym sgrinio IGRA [Y Prawf Rhyddhau Gamma Interfferon ar gyfer TB Mycobacteriwm] yn [HMP XXX], byddai hyn yn dibynnu ar ddarpariaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, rwy'n tybio.” (Bwrdd Iechyd)

Amlygodd un ymateb hefyd ei bod yn bwysig bod Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol yn "gwerthfawrogi cyfyngiadau pecynnau profi cyffuriau" ac y dylai asesiad risg "gynnwys technolegau datblygedig a ddefnyddir wrth ganfod cyffuriau, sydd fel arfer yn cael ei gyfyngu gan gyllid a hyfforddiant cyfyngedig" (Sefydliad Trydydd Sector).

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno â ffocws y canllawiau ar gyfer ailsefydlu a nodir ym Mhennod 3 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau?

15. Mae Siart 2 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 2 yr ymgynghoriad.

Siart 2:



16. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 2 yr ymgynghoriad.

- **Cefnogaeth i'r ffocws ar lety.**

  Mae sicrhau bod llety addas ar gael i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau yn hollbwysig. Mae'n arbennig o bwysig "mesur yr angen am dai a'r math o lety a gofynion cymorth yr unigolyn" (Trydydd Sector). Dylid cynnwys gwybodaeth benodol am anghenion iechyd y person fel rhan o unrhyw ffocws ar lety.

- **Mae'n hanfodol bod gan staff y sgiliau a'r cymwyseddau i weithio gyda phobl agored i niwed.**

  Mae cael staff allgymorth sy'n cefnogi pobl sy'n gadael y carchar "wrth y giât" yn bwysig er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o drosglwyddo'n llwyddiannus yn ôl i'r gymuned. Amlygwyd rôl staff allgymorth lleol yng ngogledd Cymru, er enghraifft, fel un allweddol i gefnogi pobl yn y carchar a'u galluogi i drosglwyddo'n llwyddiannus yn ôl i'r gymuned (APB).

- **Mae rôl bwysig i dechnoleg o ran cefnogi rhannu data yn ddiogel rhwng asiantaethau.**

  Gall rhannu data rhwng yr asiantaethau hynny sy'n cefnogi ailsefydlu hefyd helpu i osgoi dyblygu ac effeithiau anfwriadol ar unigolion lle mae'n rhaid iddynt "barhau i ateb yr un cwestiynau" wrth iddynt ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid.

- **Mae angen archwilio modelau llety â chymorth ymhellach, gyda'r nod o'u hefelychu ledled Cymru.**

  Amlygodd yr ymatebion fod enghreifftiau eraill o lety y gellid eu cynnwys yn y Fframwaith - yn ogystal â'r rhai a ddarperir gan Nacro ac Ymddiriedolaeth Nelson. Er enghraifft, modelau llety sy'n cynnig cymorth 24/7 i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau, a llety â chymorth a rennir ar gyfer menywod sydd ag anghenion cymhleth (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Mae angen i bartneriaethau ehangach fod yn rhan o'r strwythurau ailsefydlu a nodir, gan ystyried newidiadau newydd yn y gyfraith a deddfwriaeth tai.**

  Roedd cynlluniau gofal ar y cyd rhwng iechyd a phrawf yn cael eu hystyried yn allweddol, ochr yn ochr â rôl y trydydd sector a phartneriaid eraill - yn enwedig o ran cynlluniau rhyddhau.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno â'r datblygiadau gofynnol i'r gweithlu a nodir ym Mhennod 4 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau?

17. Mae Siart 3 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 3 yr ymgynghoriad.

Siart 3:



18. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 3 yr ymgynghoriad.

- **Mae nifer o heriau sy'n debygol o effeithio ar gyflwyno'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau - gan gynnwys gallu cael mynediad at hyfforddiant a chyllid ar gyfer hyfforddiant.**

  Gwnaed galwadau am fwy o fuddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu i gefnogi gweithredu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer carchardai.

  Soniwyd yn benodol am fynediad at hyfforddiant - a chyllid cysylltiedig ar gyfer hyfforddiant - ynghyd â'r heriau presennol sy'n gysylltiedig â chwblhau hyfforddiant gorfodol, yn sgil y pandemig. Fel y dywedodd un ymateb: "Mae hyfforddiant gorfodol i staff ar ei hôl hi oherwydd Covid felly mae hyn yn cael blaenoriaeth ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw hyfforddiant sydd ddim yn orfodol yn gallu digwydd yn y dyfodol agos" (HMPPS yng Nghymru).

  Mae angen rhagor o fanylion a mwy o adnoddau ar y ffocws ar y dull mentor cymheiriaid.

- **Mae atebolrwydd a gofynion sylfaenol ar gyfer hyfforddiant yn allweddol.**

  Gwnaed galwadau am ofynion sylfaenol ar gyfer datblygu'r gweithlu ac i sefydliadau gael eu dwyn i gyfrif ynghylch safonau ar gyfer hyfforddiant staff. Rhoddwyd enghreifftiau o sut y gallai hyn weithio'n ymarferol. Fel y dywedodd un ymateb: “Mae [XXX] yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd gydag unrhyw ofynion hyfforddi newydd yn cael eu hychwanegu, sy'n cynnwys diweddariadau deddfwriaethol, tueddiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg a blaenoriaethau etc.” (Sefydliad Trydydd Sector)

- **Roedd galwadau i hyfforddiant gynnwys dealltwriaeth gyffredinol a phenodol o pam fod pobl yn camddefnyddio sylweddau penodol.**

  Dylid canolbwyntio hefyd ar ddeall sylweddau newydd gan gynnwys nwyddau fferyllol a chyfuniadau cyffuriau sydd wedi'u dargyfeirio'n ddiweddar (Corff Proffesiynol).

  Dylai hyfforddiant ymgorffori ffocws ar brofi cyffuriau a gwirio cyffuriau, yn ogystal â dealltwriaeth o effaith mynediad cynyddol at gyffuriau - er enghraifft, cyffuriau a brynir ar-lein / effaith glinigol cyffuriau nad ydynt yn cael eu canfod mewn profion cyffuriau arferol (Corff Proffesiynol).

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'r gofynion yn ymwneud â mynediad at systemau gwybodaeth a nodir ym Mhennod 5 o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau?

19. Mae Siart 4 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 4 yr ymgynghoriad.

Siart 4:



20. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 4 yr ymgynghoriad.

- **Roedd cefnogaeth i'r dull gweithredu a'r gofynion a nodir ym Mhennod 5 y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau.**

  Fel y dywedodd un ymateb: "Rydym yn cytuno â'r dull gweithredu a'r gofynion a nodir ym Mhennod 5, gyda'r ICP [Cynllun Gofal Integredig] yn cael ei gwblhau yn unol â'r dull carchar cyfan a'i rannu mewn cyfarfodydd MDT [Tîm amlddisgyblaethol) /MDAT i rannu gwybodaeth er budd a mantais y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i'r unigolyn." (Sefydliad Trydydd Sector)

- **Awgrymwyd newidiadau mewn rhai ymatebion, roedd y rhain yn cynnwys:**

  Yr awgrym y dylai MDAT gynnwys fferyllwyr, fferyllwyr-bresgripsiynwyr annibynnol a thimau fferyllfeydd (Corff Proffesiynol). Yn ogystal, roedd galwadau am ddefnyddio presgripsiynau electronig a allai gael eu hanfon i'r gymuned (fel sy'n arfer yn Lloegr ar hyn o bryd). Dywedodd ymateb arall y byddai angen newid y templedi cenedlaethol a'r templedi ar gyfer yr ail sgriniad iechyd i gynnwys Offeryn Asesu Camddefnyddio Sylweddau Manwl Cymru WIISMAT (Bwrdd Iechyd).

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r safonau cyffredinol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai a'u pwyslais ar y meysydd canlynol:

- **Derbyn ac asesu – gan gynnwys trefniadau i asesu pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd**
- **Triniaeth ac adfer**
- **Rhyddhau a throsglwyddo**
- **Diogelwch**
- **Profiad cleifion**
- **Partneriaethau cydweithredol**
- **Rheoli meddyginiaeth**
- **Amgylchedd ehangach y carchar**
- **Gweithlu**
- **Arweinyddiaeth a llywodraethu**
- **Gofal iechyd meddwl 24 awr y dydd**
- **Yr Iaith Gymraeg**

21. Mae Siart 5 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 5 yr ymgynghoriad.

Siart 5:



22. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 5 yr ymgynghoriad.

- **Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r safonau cyffredinol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai a'r egwyddorion sy'n sail iddynt.**

  Fodd bynnag: Roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch sut mae'r safonau unigol wedi cael eu categoreiddio (fel rhai hanfodol / disgwyliedig / dymunol).

  O ran asesu corfforol, mae angen amserlenni clir ar waith i gefnogi'r safon hon.

  Soniodd un ymateb hefyd am werth cyffuriau gwrthseicotig ar y stryd a'r potensial wedyn iddynt gael eu camddefnyddio mewn carchardai: "Mae angen i weithwyr gofal iechyd proffesiynol fod yn ymwybodol bod gan rai cyffuriau gwrthseicotig (olanzapine, quetiapine), cyffuriau anxiolytic (bensodiasepinau) a chyffuriau gwrth-iselder (venlafaxine, bupropion, [Selective Serotonin Reuptake Inhibitors] SSRIs) werth ar y stryd a photensial i gael eu camddefnyddio" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Bydd adnoddau i gefnogi gweithredu'r safonau iechyd meddwl newydd yn hollbwysig.**

  Mae cyllid a chefnogaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu'r gweithlu ar gyfer gweithredu'r safonau newydd yn allweddol (mae hyn yn debyg i bwyntiau a godwyd mewn perthynas â gweithredu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau).

- **Posibilrwydd y bydd "dull seilo" o weithio ar waith yn sgil datblygiad Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau iechyd meddwl ar wahân.**

  Codwyd pryderon nad yw'r safonau yn rhoi ffocws ar y rhai sydd â gofynion cydafiachedd a chamddefnyddio sylweddau (Sefydliad Trydydd Sector). Fel y nododd un ymateb: "Mae gan lawer o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol broblemau sy'n cyd-ddigwydd ac fe ddylent fod yn rhan annatod o'r llwybr." (Sefydliad Trydydd Sector)

- **Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hollbwysig.**

  Rhaid i'r person gael ei gynnwys yn llawn mewn unrhyw benderfyniadau a chynlluniau gofal. Fel y dywedodd un ymateb: "O safbwynt sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddefnyddwyr gwasanaeth, rydym yn pryderu am y diffyg cydnabyddiaeth fod yn rhaid i'r unigolyn gael ei gynnwys yn llawn (100%) yn ei ofal a'i driniaeth. Mae hyn yn hanfodol i hyrwyddo ei ofal a'i driniaeth, cynlluniau rheoli risg, hyrwyddo urddas, parch, hunanreolaeth." (Sefydliad Trydydd Sector)

- **Mae ffocws ar bontio o'r carchar i'r gymuned yn hollbwysig.**

  Codwyd hyn mewn perthynas â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau hefyd. Dylai'r pontio o'r carchar i ddefnyddio gwasanaethau yn y gymuned fod yn ddi-dor – ac wedi ei ategu gan "drosglwyddiad uniongyrchol i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd cymunedol" (Sefydliad Trydydd Sector).

Codwyd pryderon hefyd ynghylch gweithredu safon 38 lle mae'r ffocws ar yr amserlen ar gyfer trosglwyddo i gydlynydd gofal newydd. Nododd un ymateb y dylai hyn "fod yn y safon" - ond cododd bryderon ynghylch effeithiau posibl ar dimau cymunedol "ynghylch rheoli adnoddau, hyfforddiant etc ar ôl rhyddhau" (Sefydliad Trydydd Sector). Yn benodol, nodwyd:
“Ar hyn o bryd mae unigolion yn aros am amser sylweddol yn y gymuned i gael cydlynydd gofal neu fynediad at wasanaethau" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Gofynnwyd am eglurder ynghylch a fyddai'r safonau newydd yn berthnasol i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol y tu allan i Gymru.**

  Codwyd hyn mewn perthynas â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau hefyd. Mae angen ystyried anghenion menywod sy'n dychwelyd i Gymru yn benodol, a chadarnhad a fyddai'r safonau iechyd meddwl ar gyfer y carchardai yn berthnasol i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol yn Lloegr a phan maent yn dychwelyd i Gymru.

- **Roedd pryderon hefyd nad yw systemau TG wedi eu cydgysylltu ac y byddai hynny’n effeithio ar fynediad at wybodaeth.**

  “Mae angen cael mynediad rhwydd at wybodaeth o bob sector a thros y ffin (Lloegr); mae ein haelodau sy'n gweithio o fewn carchardai wedi esbonio i ni fod hyn yn heriol weithiau gan nad yw'r gwahanol systemau TG wedi eu 'cydgysylltu’.” (Corff Proffesiynol)

Cwestiwn 6: A oes gennych chi unrhyw heriau i'r dystiolaeth a nodir yn y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer iechyd meddwl, a sut y gellir mynd i'r afael â'r heriau hyn?

23. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 6 yr ymgynghoriad.

- **Mae amser ac adnoddau yn allweddol i weithredu'n llwyddiannus y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau iechyd meddwl newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchar.**

  Dywedodd un ymateb: "Mewn egwyddor, mae'r rhain yn cael eu cefnogi'n llawn. Fodd bynnag, i fod yn llwyddiannus bydd angen iddynt gael digon o adnoddau ac amser i'w hintegreiddio i arferion ac amgylcheddau gwaith cyfredol" (APB). Nododd un arall: "Mae prinder staff yn aml yn her; gallai defnyddio fferyllydd a gweithwyr proffesiynol eraill fel presgripsiynwyr anfeddygol helpu yn y maes hwn... Cyllid i reoli gwahanol garfannau o PCIPs fel PCIPs sy'n defnyddio sylweddau lluosog... Gallai mwy o gyllid a hyfforddiant staff helpu gyda datrys y materion hyn" (Corff Proffesiynol).

- **Mae angen rhoi ystyriaeth benodol i gyllid sy'n cefnogi gweithredu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl**.

  "Gydag unrhyw ddeddfwriaeth/Canllawiau neu Fframwaith newydd, bydd cyllid bob amser yn ystyriaeth allweddol. Y cwestiwn yw cost go iawn gweithredu'r strategaeth nid dim ond amser staff, hyfforddiant ychwanegol, arferion yn y gweithle sy'n ystyriol o drawma, gweithredu prosesau asesu newydd ond y goblygiad ariannol amser real nid yn unig i HMPPS, ond i bob APB ledled Cymru alinio'r anghenion pontio o'r Ddalfa i'r Gymuned." (APB)

  Gwnaed sylwadau hefyd mai'r brif her fyddai adolygu'r gweithlu a sicrhau adnoddau ychwanegol i gyflawni. Bydd hyn yn arbennig o heriol mewn carchardai llai nad oes ganddynt lawer o le i ehangu staff.

- **Roedd cefnogaeth i sefydlu llif gwaith penodol i oruchwylio gweithredu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl gan ddefnyddio asesiadau llinell sylfaen.**

  "Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y safonau a'r fframweithiau hyn ddod i ben, hoffem weld newid mewn ffocws i weithredu'r newidiadau hyn. Er mwyn cyflawni hyn, rydym ni'n argymell sefydlu ffrwd waith newydd, un a fydd yn mesur y ddarpariaeth gyfredol yn erbyn y safonau hyn. Bydd hyn yn gosod llinell sylfaen i fesur gwelliannau, a hefyd yn tynnu sylw at ble mae unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth fel y gallwn gynnig gwasanaeth gwell a mwy amrywiol sy'n diwallu anghenion cymhleth poblogaeth y carchardai." (HMPPS yng Nghymru)

- **Gwnaed sylwadau hefyd yn ymwneud â materion penodol y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus.**

  Mae'r materion hyn yn cynnwys yr angen am barhad gofal a sicrhau bod gan bobl sydd â mynediad at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn y carchar fynediad hefyd at wasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn y gymuned.

  Roedd yna sylwadau hefyd ynghylch y ffaith bod y dull yn un sy'n dibynnu'n drwm ar weithio ar wahân o hyd. Mae gan lawer o unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol broblemau sy'n cyd-ddigwydd a dylai ystyried hyn fod yn rhan annatod o'r llwybr.

Cwestiwn 7: Rydym wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant at ddibenion ymgynghori ochr yn ochr â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar hawliau plant a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant?

24. Mae Siart 6 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 7 yr ymgynghoriad.

Siart 6:



25. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 7 yr ymgynghoriad.

- **Cymorth ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc.**

  Bydd hi'n bwysig gofyn am farn pobl ifanc mewn perthynas â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau iechyd meddwl drafft. Ystyriwyd bod ymgysylltu â phobl ifanc â phrofiad bywyd yn arbennig o bwysig (APB).

- **Mae angen ffocws penodol i ddatblygu systemau i roi diwedd ar ecsbloetio plant ym masnach llinellau cyffuriau.**

  Mae angen i'r CRIA gynnwys cyfeiriad penodol at waith sy'n cael ei wneud ar ecsbloetio, llinellau cyffuriau a phobl ifanc (Corff Proffesiynol).

Cwestiwn 8: Rydym wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar bobl â nodweddion gwarchodedig?

26. Mae Siart 7 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 8 yr ymgynghoriad.

Siart 7:



27. Ni chodwyd pwyntiau ychwanegol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch Cwestiwn 8.

Cwestiwn 9: Rydym wedi cyhoeddi fersiwn ddrafft o Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg at ddibenion ymgynghori ochr yn ochr â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai. Ydych chi'n cytuno â'n hasesiad o'r effeithiau ar yr Iaith Gymraeg?

28. Mae Siart 8 isod yn nodi nifer yr ymatebion a oedd yn cytuno â Chwestiwn 9 yr ymgynghoriad.

Siart 8:



29. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 9 yr ymgynghoriad.

- **Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn darparu asesiad cynhwysfawr o effeithiau'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ar y Gymraeg.**

  Fel y dywedodd un ymateb: "Mae pob maes perthnasol wedi cael ei ystyried ac amlinellwyd dull i sicrhau darpariaeth Gymraeg a gofynion y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Mae angen ystyried anghenion Cymraeg menywod yn y carchar / menywod yn y system cyfiawnder troseddol.**

Mae cefnogi menywod yn y system cyfiawnder troseddol mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg yn debygol o fod yn her allweddol o ystyried nad oes carchardai i fenywod yng Nghymru.

Cwestiwn 10: Hoffem wybod eich safbwyntiau ar effeithiau'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

30. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 10 yr ymgynghoriad.

- **Mae'r potensial i bobl gael mynediad at wasanaethau a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddibynnol ar gael mynediad at staff priodol sy'n siarad Cymraeg.**

  Fel y dywedodd un ymateb: "Bydd hyn, fel yn [Cwestiwn] 9 uchod, yn arbennig o heriol i fenywod mewn carchardai yn Lloegr. Byddai ffocws ar gymorth yn y sefydliadau hyn fel blaenoriaeth yn lliniaru hyn" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Mae diffyg mynediad at therapïau seicolegol sy'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru.**

  Mae angen ystyried hyn yn benodol mewn perthynas â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai. Fel y dywedodd un ymateb: "Byddem yn cynnwys swyddogion, darparwyr gofal iechyd a phobl broffesiynol/lleyg a darparwyr trydydd sector sy'n weithredol yn y Sector Carchardai ac sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyn" (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Mae angen mwy o gymorth er mwyn i ddysgwyr Cymraeg adeiladu, cynnal a gwella eu sgiliau Cymraeg.**

  Yn benodol, roedd galwadau am wella mynediad at gymorth i bobl sy'n siarad Cymraeg: "Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i wella mynediad at gymorth ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Gellid ystyried rhoi cyfle i staff a gyflogir wneud cwrs Cymraeg 'sylfaenol' fel rhan o'u datblygiad, er mwyn gallu deall a siarad Cymraeg sylfaenol." (Corff Proffesiynol)

  Yn ychwanegol: Efallai y bydd dysgwyr yn ei chael hi'n anodd cynnal a datblygu eu sgiliau iaith. Codwyd cwestiynau ynghylch a oes ystyriaeth wedi'i rhoi i "...sut y gellir datblygu sgiliau iaith elfennol yn ystod cyfnod yn y carchar?" (APB).

Cwestiwn 11: Eglurwch sut rydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau drafft a'r safonau drafft ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y carchardai er mwyn cael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac ar osgoi effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

31. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn **print trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 11 yr ymgynghoriad.

- **Mae canolbwyntio ar y cynnig gweithredol a sicrhau bod pobl yn y carchar yn gallu cael mynediad at wasanaethau cymorth cyfrwng Cymraeg yn rhan unigryw ond hanfodol o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer iechyd meddwl - ni all hyn ond cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.**

  Gwnaed galwadau am gynnal asesiad sylfaenol gan ganolbwyntio'n benodol ar y Gymraeg a'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a safonau iechyd meddwl: "Byddai modd nodi llinell sylfaen wrth i'r drafft ddod yn bolisi ac yna ei ailwerthuso dros amser i weld a fu effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg ar draws y sector." (Sefydliad Trydydd Sector)

Cwestiwn 12: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych o'r farn fod yna faterion cysylltiedig nad ymdriniwyd â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle gwag hwn i'w nodi.

32. Mae'r adran ganlynol yn nodi themâu allweddol (a nodir mewn print **trwm** isod) a nodwyd mewn ymatebion i Gwestiwn 12 yr ymgynghoriad.

- **Mae angen mwy o bwyslais ar fenter "Ailgartrefu Cyflym" Llywodraeth Cymru yn y fersiwn ddrafft o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau.**

  Fel y dywedodd un ymateb: "Ein prif fuddiant felly yw'r elfen Integreiddio personau sy'n dychwelyd i ogledd Cymru ar ôl eu rhyddhau. Mae nifer o fentrau a phrosiectau ar y gweill neu yn y cam cynllunio a datblygu yn y gogledd, y teimlwn y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar y broses hon. Mae menter Ailgartrefu Cyflym Llywodraeth Cymru yn hollbwysig i unrhyw bontio llwyddiannus. Er bod sôn amdani yn y Fframwaith drafft, efallai fod angen mwy o bwyslais?" (APB)

- **Galwadau am fwy o ffocws ar ddatrysiadau cyn carchar (Llys y Goron a Llys Ynadon).**

  Dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r defnydd o ddatrysiadau eraill posibl, o fewn cynnwys y Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl (Sefydliad Trydydd Sector).

- **Gwnaed galwadau am ymyriadau a gwasanaethau mwy arbenigol / wedi'u targedu ar gyfer pobl yn y carchar a'r rhai sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol, neu newydd-ddyfodiaid sydd heb gael dedfrydau o garchar.**

  Drwy ddarparu ymyriadau ar gyfer y problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n wynebu'r grwpiau hyn, tynnodd ymatebion sylw at gyfleoedd i "leihau aildroseddu ac osgoi'r tarfu a achosir gan gyfnod yn y carchar" (HMPPS yng Nghymru).

  Roedd galwadau hefyd am "fwy o ffocws ar wella mynediad ac argaeledd rhaglenni wedi'u targedu sy'n cynnig continwwm triniaeth o asesiad cychwynnol i driniaeth seicogymdeithasol a meddygol (dadwenwyno/meddyginiaeth) i strategaethau lleihau niwed sy'n arwain at strategaethau adfer ac ymatal" (Sefydliad Trydydd Sector), yn ogystal â hyfforddiant staff (HMPPS yng Nghymru / Corff Proffesiynol).

  Tynnodd yr ymatebion sylw hefyd at bwysigrwydd lleihau niwed ac ymyriadau penodol megis darparu nodwyddau, naloxone y gellir ei gymryd gartref, rhoi'r gorau i smygu, deintyddol (Corff Proffesiynol).

- **Pontio a throsglwyddo gofal / parhad gofal.**

  Codwyd pryderon penodol mewn perthynas â lefelau staffio a'u heffaith ar barhad gofal a darpariaeth gwasanaethau (Corff Proffesiynol).

  Roedd galwadau am fwy o wybodaeth am drosglwyddo gofal ar adegau gwyliau banc ac mewn ardaloedd gwledig lle gall mynediad at wasanaethau fod yn heriol (Corff Proffesiynol).

  O ran parhad gofal: “Er mwyn galluogi parhad gofal, mae angen i ni adolygu darpariaethau cytundebol yn barhaus a sut mae mannau sy'n cael eu gweithredu'n bennaf gan staff locwm yn gallu effeithio ar y rhain” (Corff Proffesiynol).

  Gallai patrymau shifft gweithwyr allweddol/Rheolwyr Troseddwyr (OM) ohirio cynnydd triniaeth. Fel y dywedodd un ymateb: “Er y byddai'n ddefnyddiol cynnwys gweithwyr allweddol/OM wrth osod nodau/cynlluniau gofal mae patrymau shifft yn golygu y gallai hyn ohirio cynnydd triniaeth. Pan mae swyddog ar ddyletswydd nos mae'n cael yr wythnos wedyn i ffwrdd - mae hyn yn golygu oedi o bythefnos o leiaf.” (HMPPS yng Nghymru)

- **Mae'r angen am "Gysylltwyr Cymunedol" yn hanfodol i bontio o'r carchar i ryddhau.**

  Gwelir bod Cysylltwyr Cymunedol yn “cynnig help ac arweiniad o'r giât ac yn sicrhau bod Cynlluniau Gofal Integredig (ICP) sy'n cael eu crybwyll yn helaeth yn y Fframwaith drafft, wir yn troi'n gamau gweithredu ar y strydoedd ac nad ydynt yn cael eu colli yn y 72 awr tyngedfennol ar ôl rhyddhau" (APB). Ymhellach: “Mae galluogi'r Cysylltwyr Cymunedol i gael mynediad i'r carchar i gynorthwyo gyda'r Cynllun Gofal Integredig yn ofyniad hanfodol ac yn anodd o ystyried bod llawer â phrofiad byw o fywyd carchar a all eu hatal rhag cael mynediad.” (APB)

- **Mae angen ystyried pobl yn y gymuned ochr yn ochr ag iechyd a lles pobl yn y carchar.**

  Yn benodol, roedd ymateb HMPPS yn galw am gynnwys pobl o dan brawf fel elfen allweddol o weithio cydweithredol yn y dyfodol. “Bydd hyn yn cynnwys creu cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau iechyd carchardai a'r rhai yn y gymuned adeg eu rhyddhau, yn enwedig y pontio rhwng y ddwy ddarpariaeth.” (HMPPS yng Nghymru)

- **Cymorth i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol a'r rhai sy'n symud yn ôl i Gymru yn dilyn dedfryd o garchar yn Lloegr.**

  “Mae menywod sy'n cael eu rhyddhau yn ôl i Gymru hefyd angen cymorth ychwanegol i barhau â thriniaeth ac ailadeiladu eu bywydau. Hoffem weld y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori mewn unrhyw ffrydiau gwaith yn y dyfodol”. (HMPPS yng Nghymru)

- **Angen cymorth i grwpiau arbennig, e.e. amenedigol, pobl hŷn â dementia**

  Mae angen ystyried hyn mewn perthynas â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl .

- **Sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.**

  Tynnodd yr ymatebion sylw at bwysigrwydd cyfathrebu yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau rhagnodedig a hysbysu / uwchgyfeirio pryderon yn brydlon.

  Mae angen rhagor o wybodaeth am sefyllfaoedd sy'n ymwneud â gwrthod gwasanaeth.

  Mae angen eglurder pellach ynghylch sut mae'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn gweithio mewn perthynas â gofal y tu allan i oriau.

  Mae angen eglurder ar brosesau i adnabod unigolion newydd - er enghraifft, y rhai sydd wedi dechrau defnyddio cyffuriau yn y carchar.

  Angen rhagor o waith i dynnu sylw at rôl fferyllwyr a thimau fferyllfeydd gan nad yw hyn yn gyfyngedig i ddarparu meddyginiaethau a goruchwylio cymryd OST.

  Mae diffyg OMs yn gyffredinol a llwyth gwaith uwch yn golygu nad yw cynlluniau gofal sy'n cael eu harwain gan OM yn debygol o fod yn ymarferol.

Ymateb Llywodraeth Cymru

33. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, HMPPS yng Nghymru, y trydydd sector a phartneriaid eraill i weithredu'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau a'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

34. Bydd asesiadau sylfaenol a dadansoddiadau bwlch yn cael eu cynnal i asesu i ba raddau y mae'r carchardai yng Nghymru eisoes yn cyrraedd safonau craidd sy'n cael eu gosod ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn y carchardai - gyda'r bwriad wedyn o fynd i'r afael â materion allweddol sy'n cael eu nodi.

35. Bydd rhagor o gymorth ar gyfer cyflwyno ar gael i'r carchardai trwy ddatblygiadau eraill, fel menter Straen Trawmatig Cymru a'i ffrwd waith carchar a chyfiawnder troseddol sy'n cynnwys pwyslais ar gynorthwyo pobl yn y carchar sydd wedi dioddef trawma i gael y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt, yn ogystal â gweithredu'r fframwaith Cymru sy'n ystyriol o drawma newydd.